

# Cyngor Cymuned Pontyclun Community Council

**"Bydd Cyngor Cymuned Pontyclun yn gweithio gyda thrigolion a'u sefydliadau er mwyn sicrhau dyfodol gweithgar, bywiog a llwyddiannus i gymunedau Pontyclun."**

## Cais am Grant

Rydym yn croesawu ceisiadau am gyllid yn bennaf gan grwpiau cymunedol ym Mhontyclun, Meisgyn a Groesfaen.

Amcanion y Cyngor yw:

1. I annog trigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol
2. I wella'r economi leol
3. I wella'r amgylchedd lleol
4. I gynnwys y rhai llai cyfoethog yn ein cymuned
5. I feithrin ymgysylltiad pobl ifanc ym mywyd ein cymuned

Trwy ddarparu cyllid grant byddwn yn chwarae ein rhan wrth gefnogi bywiogrwydd grwpiau cymunedol a gallu pobl leol i fod yn rhan o grwpiau o'r fath.

## Pwy a sut byddwn yn cefnogi?

- Mae'r Cyngor yn cymeradwyo grantiau ar sail chwarterol gyda dyddiadau cau ar gyfer pob chwarter ar ddiwedd mis Mai, Awst, Tachwedd a Chwefror.
- Os derbynir mwy o geisiadau na'r arian sydd ar gael i'w dosbarthu, gall y Cyngor gytuno i gyflwyno cais heb ei llenwi i'r chwarter canlynol a'i ystyried eto bryd hynny.
- Gan fod y Cyngor yn dymuno canolbwyntio ar gefnogi grwpiau cymunedol lleol, bydd grantiau'n cael eu hystyried yn y drefn flaenoriaeth ganlynol
  - Grwpiau gwirfoddol lleol ac elusennau lleol
  - Elusennau cenedlaethol sy'n gweithio o fewn ein cymuned
  - Sefydliadau masnachol.
- Uchafswm y grant y byddem fel arfer yn cynnig ar gyfer prosiect neu sefydliad yw £500.

Mewn amgylchiadau eithriadol bydd y Cyngor yn cefnogi prosiect cyfalaf sylweddol gydag mwy na £500. Dylai ymgeiswyr am y fath lefel o gyllid geisio cyfarfod rhagarweiniol gyda'r Clerc a fydd yn eu cynghori ar y wybodaeth sy'n ofynnol i gefnogi cais o'r fath.

- Wrth benderfynu ar ddyraniad grantiau, byddwn yn ystyried y meini prawf canlynol: -
  1. Ydych chi'n gweithio yn ardal ein Cyngor Cymuned neu'n cefnogi trigolion ein hardal?
  2. Bydd grantiau at ddiben penodol yn cael blaenoriaeth dros rhai i gefnogi gweithgareddau cyffredinol y sefydliad?;
  3. Bydd y grant yn galluogi mwy o bobl leol i gymryd rhan yn y sefydliad?;
  4. Bydd y grant yn galluogi'r sefydliad i wneud cais am arian gan sefydliadau eraill?;
  5. Sut bydd y grant yn eich galluogi i gefnogi un neu fwy o amcanion y Cyngor?
  6. Y gyllideb sy'n weddill a grantiau blaenorol a wnaed i'r sefydliad sy'n gwneud cais

Os oes angen cymorth arnoch i lenwi'r ffurflen, cysylltwch â'r Clerc Julius Roszkowski ar 01443 238500 neu ebostiwch [clerk@pontyclun-cc.gov.wales](mailto:clerk@pontyclun-cc.gov.wales)

## Ffurflen Gais

### Eich Sefydliad

Enw'r sefydliad	
Diben y sefydliad	
Nifer y cyfranogwyr / aelodau	
Nifer y cyfranogwyr / aelodau sy'n byw mewn ward <b>Cyngor Cymuned Pontyclun</b> : Pontyclun, Brynsadler, Talygarn, Meisgyn, Cefn yr Hendy, Groesfaen, Mwyndy	
Grŵp oedran o gyfranogwyr / aelodau	

### Eich Cais

Pam mae angen grant arnoch chi?	
Beth yw cyfanswm cost eich gofynion?	
A fydd y grant yn cynhyrchu referniw? Os felly, faint yw'r referniw arfaethedig?	
Faint o arian yr ydych yn gofyn i'r Cyngor Cymuned am?	
A fydd unrhyw un y tu allan i'ch grŵp yn elwa o'r grant hwn? Sut?	
Sut bydd y grant yn cefnogi cyflawni amcanion y Cyngor Cymuned?	

### Gwybodaeth ychwanegol: Atodwch (os yn bosibl)

1. eich cyfrifon incwm a gwariant diwethaf
2. eich cyfansoddiad neu nodau ac amcanion

## **Amodau Grant:**

### **Os ydy Cyngor Cymuned Pontyclun yn cytuno i roi grant i chi, mae yna dri amod safonol.**

- Mae buddiolwyr yn cytuno y byddant yn cymryd rhan mewn digwyddiad ymgynghori cymunedol yn ôl disgrisiwn y Cyngor. Bydd y digwyddiad yn galluogi'r sefydliad i arddangos eu hunain a sut mae'r Cyngor wedi eu cefnogi a / neu ddarparu erthygl newyddion yn amlinellu'r sefydliad a sut y mae'r Cyngor yn eu cefnogi.
- Mae buddiolwyr yn cytuno y byddant yn cyfeirio at gefnogaeth y Cyngor yn eu cofnodion / deunyddiau hyrwyddo.
- Mae buddiolwyr yn cytuno y gall Cyngor Cymuned Pont-y-clun roi manylion y sefydliad ar wefan y Cyngor Cymuned am gyfnod o 12 misoedd fel y gall aelodau'r cyhoedd gysylltu â'r grŵp yn haws

Gan ddibynnu ar natur y cais, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i osod amodau eraill

### **Eich data personol**

Cedwir y wybodaeth yn y cais hwn gan Gyngor Cymuned Pontyclun ar gyfer ystyried eich cais am grant.

Bydd y wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen gais uchod yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ac yn dod yn gofnod cyhoeddus parhaol, yng nghofnodion y Cyngor.

Defnyddir "wybodaeth ar gyfer y wefan" isod i gyhoeddi gwybodaeth am eich sefydliad ar y wefan Pontyclun.net am gyfnod o 15 misoedd. Byddwn yn cysylltu â chi eto cyn y dyddiad hwn i gadarnhau'r manylion ac i gael caniatâd i barhau i gyhoeddi'r manylion.

Bydd "gwybodaeth gyswllt y cais" isod yn cael ei gadw am hyd at 7 mlynedd fel llwybr archwilio ar gyfer ein gwariant a gellir ei rannu gyda'r awdurdodau perthnasol ar gais ganddynt.

Rheolir y cynllun hwn gan Gyngor Cymuned Pontyclun. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Clerc ar 01443 238500.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein hysbysiad preifatrwydd sydd i'w gweld ar ein gwefan Pontyclun.net neu yn Swyddfeydd y Cyngor yn yr adeilad hwn.

## Eich manylion ar gyfer gwefan Cyngor Cymuned Pontyclun

Enw'r sefydliad	
Disgrifiad byr o'r sefydliad, y dyddiad cyfarfod, amseroedd a lleoliad	
Enw cyswllt a swyddogaeth (Mae swyddogaeth yn dderbyniol os ydych yn dymuno aros yn ddienw – e.e. Ysgrifennydd)	
Cyfeiriad e-bost cyswllt	
Rhif ffôn cyswllt	
Cyfeiriad gwefan – os yn berthnasol	

## Eich manylion cyswllt at ddibenion y cais

Siec yn daladwy i	
Enw'r ymgeisydd	
Cyfeiriad cyswllt	
<b>Cyfeiriad e-bost</b>	

Gallaf gadarnhau bod y manylion a roddir yn y cais hwn yn gywir a'n bod yn cytuno i'r amodau a amlinellir uchod gan gynnwys (ticiwch y blwch)

- Amodau'r grant a restrir uchod
- Bod y Cyngor yn gallu cadw ein manylion cais yn barhaol fel rhan o gofnodion y cyfarfod Cyngor lle cawsant eu trafod
- Bod y Cyngor yn gallu cyhoeddi ein manylion ar eu gwefan am 15 misoedd
- Bod y Cyngor yn gallu cadw ein manylion at ddibenion llwybr archwilio ariannol, fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth

Llofnod:

Dyddiad:

Ar ran (enw'r sefydliad)